

# **Polisi Anghenion Gofal Iechyd Ysgol Gymraeg Bro Eirwg**

## **Dyddiad cyhoeddi:**

1af o Ragfyr, 2017

## **Enw, cyfeiriad llawn a chod post yr ysgol:**

Ysgol Gymraeg Bro Eirwg, Ridgeway Road, Rumney, CF3 4AB

## **Rhif ffôn yr ysgol:**

02920 777124

## **Cyfeiriad e-bost yr ysgol:**

[ysgolbroeirwg@cardiff.gov.uk](mailto:ysgolbroeirwg@cardiff.gov.uk)

## **Cyfeiriad y wefan ar gyfer y polisi hwn:**

[www.ysgolbroeirwg.cardiff.sch.uk](http://www.ysgolbroeirwg.cardiff.sch.uk)

## **Enw'r person sy'n gyfrifol am ddiweddarau'r polisi hwn:**

Stephanie Evans (ALNCo)

## **1. Y Prif Egwyddorion**

Mae staff a llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Bro Eirwg yn ymrwymo'n llawn i ddilyn polisi addysg gynhwysol sy'n croesawu a chefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Cynlluniwyd y polisi i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar ei addysg mewn amgylchedd cefnogol, sy'n sensitif i unrhyw anghenion gofal iechyd. Mae'n ategu'r gwaith o reoli meddyginiaeth ac anghenion iechyd mewn ysgol, ac mae'n cefnogi unigolion ag anghenion gofal iechyd penodol.

Yn Ysgol Gymraeg Bro Eirwg rydym yn deall na ddylai anghenion gofal iechyd fod yn rhwystr rhag dysgu, felly rydym yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall ei ddyletswydd gofal i blant a phobl ifanc os bydd argyfwng ac rydym yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud yn y fath sefyllfa.

Nodwyd ynddo rolau a chyfrifoldebau'r ysgol, rhieni a dysgwyr. Bydd dulliau cyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol yn ei gwneud yn bosibl cyflawni hyn.

Ysgrifennwyd y polisi mewn ymgynghoriad ag ystod eang o randdeiliaid allweddol lleol mewn ysgolion ac mae'n cydymffurfio â Chanllaw Llywodraeth Cymru 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd' a gyhoeddwyd ar 30 Mawrth 2017. Rydym hefyd yn cydnabod ac yn gallu cyfeirio at becyn cymorth Awdurdod Lleol Caerdydd, 'Bodloni Anghenion Iechyd Plant a Phobl Ifanc yng Nghaerdydd – Pecyn Cymorth ar gyfer Lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar ac Ysgolion (Ebrill 2017)' os bydd angen rhagor o wybodaeth, yn benodol am reoli cyflyrau penodol.

1.1 1.1 Mae pob plentyn, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, yn unigolyn sy'n datblygu yn ei ffordd unigryw ei hun; felly, ein nod yw annog y plant i weld drostynt eu hunain ba dalentau sydd ganddynt, meithrin eu hunanhyder, a datblygu ymdeimlad o berson digonol, fel y gall pob plentyn ymdopi â'r amgylchedd, ar lefel sy'n briodol i'r plentyn hwnnw.

Y gobaith yw y bydd pob plentyn yn berson cytbwys, hapus ac yn gallu meithrin agweddau synhwyrol tuag at ddysgu fel ei fod yn gallu cael mwynhad ym mhob agwedd ar waith ysgol, a boddhad o'i gyflawniadau ei hun.

1.2 Mae materion gofal iechyd yn effeithio ar bob dysgwr yn unigol ac mae'n bosib y gall cymorth gan y lleoliad addysg effeithio ar ansawdd ei fywyd a'i lwyddiant yn y dyfodol. Felly, dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid sicrhau bod trefniadau yn canolbwyntio ar fodloni anghenion penodol y dysgwr a'u bod yn ystyried sut mae hynny'n effeithio ar ei addysg, ei gyflawniad a'i lesiant. Dylai trefniadau roi hyder i ddysgwyr a rhieni fod y ddarpariaeth yn addas ac yn effeithiol.

## **2. Gofynion cyfreithiol yr ysgol**

2.1 Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn ymarfer eu swyddogaethau gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant mewn ysgolion neu leoliadau dysgu arall. Mae hynny'n cynnwys cefnogi plant ag anghenion gofal iechyd.

2.2 Wrth gyflawni dyletswyddau dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw dyledus i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru dan yr adran hon.

2.3 Mae Adran 21 (5) o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd ar gyrff llywodraethu i hyrwyddo llesiant dysgu yn yr ysgol cyn belled ag y bo hynny'n berthnasol i'r materion y cyfeiriwyd atynt yn adran 25(2) o Ddeddf Plant 2004, sy'n cynnwys iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol, addysg, hyfforddiant a hamdden, a llesiant cymdeithasol.

2.4 Cyhoeddir y cyngor anstatudol sydd yn y ddogfen wrth ymarfer dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl Cymru a'u pŵer i hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru.

2.5 Gan gadw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn cof, dylai sefydliadau addysg fod yn gwbl ymwybodol o'r dull hwn a sicrhau y cynigir cymorth i ddysgwyr drwy ddefnyddio dull holistig.

### **3. 3. Rolau a chyfrifoldebau**

#### **3.1 3.1 Ysgolion**

Dylai ysgolion lunio a rhoi trefniadau ar waith yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

#### **3.2 3.2 Cyrff Llywodraethu**

Dylai cyrff arolygu'r gwaith o lunio a rhoi'r trefniadau ar waith, a ddylai gynnwys:

- Cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 e.e. y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd os ydynt yn anabl)
- Dyletswydd statudol i hyrwyddo llesiant dysgwyr. Dylai ysgolion ystyried sut y gallant fodloni'r anghenion hyn, gan gynnwys sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio ar wybodaeth a deunydd sy'n anelu at hyrwyddo llesiant ysbrydol a moesol ac iechyd corfforol a meddyliol (Erthygl 17 CCUHP).
- Ystyried sut y gallant gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth a gwydnwch emosiynol sydd eu hangen i sicrhau eu hawliau, a hawliau pobl eraill.
- Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r trefniadau ar gyfer cefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn glir ac yn ddealladwy i bawb, gan gynnwys y gwaith o ddirprwyo cyfrifoldebau neu dasgau priodol i bennaeth, aelod o staff neu weithiwr proffesiynol fel y bo'n briodol.
- Cydweithio â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i lunio trefniadau gofal iechyd sy'n ateb buddiannau'r dysgwr yn y ffordd orau bosib.
- Llunio a rhoi'r trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai hyn gynnwys polisi ar anghenion gofal iechyd a phan fo hynny'n briodol, Cynlluniau Gweithredu Unigol (GIUau) ar gyfer dysgwyr penodol.
- Sicrhau bod trefniadau ar waith o ran datblygu, monitro ac adolygu'r trefniadau anghenion gofal iechyd.
- Sicrhau bod y trefniadau dan sylw yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, megis iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesiadau risg, Deddf Diogelu Data 1998, mesurau diogelwch a gweithdrefnau brys.
- Sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer delio ag achosion gofal iechyd brys a digwyddiadau difrifol, ar gyfer gweithgareddau a gynhelir ar y safle a thu hwnt iddo, gan gynnwys y gallu i gael gafael ar feddyginiaethau brys megis anadlwyr neu bennau adrenalin. Sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Sicrhau bod yswiriant priodol ar waith, bod unrhyw amodau'n cael eu dilyn a bod staff yn glir o ran beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw wrth gefnogi dysgwyr
- Dilyn polisi atal haint sy'n adlewyrchu'r gweithdrefnau a nodir yn y canllawiau cyfredol yn llawn

#### **3.3 Y Pennaeth / athro mewn gofal:**

Dylai'r pennaeth sicrhau bod trefniadau ar gyfer bodloni anghenion gofal iechyd ei ddysgwyr fod wedi'u llunio'n ddigonol a'u gweithredu'n effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r corff llywodraethu i sicrhau bod y trefniadau'n cydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 2010
- Sicrhau bod pob parti sydd ynghlwm yn deall y trefniadau sydd ar waith i fodloni anghenion gofal iechyd dysgwyr yn llawn a bod y camau hynny'n parhau i gael eu rhoi ar waith.
- Dylai'r pennaeth arolygu'r trefniadau hyn yn uniongyrchol fel rhan o'r trefniadau adrodd ac arolygu rheolaidd
- Sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr unigol ac yn eu bodloni, sef Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar y Person
- Lledaenu'r ymwybyddiaeth o anghenion gofal iechyd ym mhob rhan o'r lleoliad addysg yn unol â hawl y dysgwr i gael preifatrwydd. Gallai hynny gynnwys staff cynorthwyol, arlwyo a chyflenwi, llywodraethwyr, rhieni a dysgwyr eraill
- Penodi aelod o staff i fod yn gyfrifol am ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, cysylltu â rhieni, dysgwyr, y gwasanaeth addysg yn y cartref, yr awdurdod lleol, y gweithiwr allweddol ac eraill sy'n gysylltiedig â gofal y dysgwr
- Sicrhau bod nifer digonol o staff hyfforddedig ar gael i weithredu'r trefniadau a nodir yn yr holl GGIUau, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau ac absenoldeb staff.
- Bod yn gyffredinol gyfrifol am lunio CGIUau
- Sicrhau bod gan ddysgwyr amgylchedd priodol ac urddasol i gyflawni eu hanghenion gofal iechyd e.e. toiledau preifat ar gyfer defnyddio cathetr
- Cadarnhau gyda'r awdurdod lleol p'un a yw gweithgareddau penodol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu dod o dan bolisi yswiriant yr awdurdod lleol a bod llawer o staff yn gwybod am unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith ar y gweithgareddau dan sylw
- Sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion gofal iechyd mewn cysylltiad priodol â gwasanaeth cyngor iechyd y lleoliad addysg
- Sicrhau, pan fo dysgwr yn gadael safle ysgol er mwyn mynd ar drip ysgol neu ryw beth tebyg, y cytunir ar gefnogaeth gofal iechyd priodol a'i fod yn cael ei roi ar waith
- Cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i fodloni anghenion gofal iechyd dysgwyr
- Sicrhau na chaiff dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y gweithgareddau y byddai hawl ganddynt i gymryd rhan ynddynt fel arall, heb reswm clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Rhoi gwybod i'r awdurdod lleol pan fo dysgwr yn debygol o fod i ffwrdd o'r lleoliad addysg am gyfnod sylweddol e.e. tair wythnos oherwydd eu hanghenion gofal iechyd. Yn y pen draw, mae'r hyn y gellir ei ystyried yn gyfnod o absenoldeb 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau a ph'un ai a oes modd i'r lleoliad gynnig addysg addas i'r dysgwyr. Gallai cyfnodau byrrach o absenoldeb fod yn sylweddol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.
- O ystyried Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai lleoliadau addysg fod yn gwbl ymwybodol o'r dull hwn a sicrhau y cynigir cymorth i ddysgwyr drwy ddefnyddio dull holistig.

### **3.4 Athrawon, Staff Cynorthwyol a phob aelod o Staff (e.e. Staff arlwyo a staff derbynfa);**

Mae'n bosib y gofynnir i unrhyw aelod o staff yn y lleoliad addysg roi cymorth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu arolygu'r gwaith o roi meddyginiaeth. Rôl wirfoddol yw hon. Mae'n rhaid i aelodau staff gael hyfforddiant digonol ac addas a chyflawni'r lefel gallu angenrheidiol cyn cael y cyfrifoldeb.

Yn ogystal â'r hyfforddiant a gynigir i staff sydd wedi gwirfoddoli neu sy'n cynorthwyo dysgwyr anghenion gofal iechyd yn rhan o'u contract, dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod staff:

- Yn deall polisi a threfniadau anghenion gofal iechyd y lleoliad addysg yn llawn
- Yn gwybod pa ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig, a phan fo hynny'n briodol, yn gyfarwydd â CGIUau y dysgwyr dan sylw. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i gyfathrebu â rhieni a beth sy'n sbarduno'r angen i gysylltu â nhw, megis pan fydd y dysgwr yn sâl, yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu yn gwrthod rhai gweithgareddau oherwydd ei anghenion gofal iechyd.
- Yn ymwybodol o'r arwyddion, symptomau a sbardunau sy'n gysylltiedig â chyflyrau meddygol a all roi bywyd yr unigolyn yn y fantol. Mae hyn yn cynnwys gwybod pwy ydy'r swyddogion cymorth cyntaf a gofyn am eu cymorth mewn argyfwng.
- Deall gweithdrefnau brys y lleoliad yn drylwyr a bod yn barod i weithredu mewn argyfwng
- Gofyn barn dysgwyr a'u rhieni, gwrando arnynt, a'u hystyried wrth drefnu cymorth
- Sicrhau bod dysgwyr (neu eu cyfeillion) yn gwybod at bwy i droi os byddant yn teimlo'n sâl, angen cymorth neu newid eu cymorth
- Gwrando ar bryderon dysgwyr os ydynt yn teimlo'n sâl ar unrhyw adeg ac ystyried yr angen i geisio cymorth meddygol (yn enwedig mewn achosion sy'n gysylltiedig ag anawsterau wrth anadlu)
- Sicrhau na chaiff dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eu gwahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau y mae ganddynt hawl i gymryd rhan ynddynt heb reswm digonol, gan gynnwys unrhyw deithiau/ymweliadau allanol Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar eu meddyginiaeth a bod aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ar gael i gynorthwyo pan fo angen
- Yn gwybod am broblemau o ran bwlio a'r effaith ar les emosiynol dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a'u bod yn barod i ymyrryd yn unol â pholisi'r lleoliad addysg.
- Yn gwybod y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu dysgwr i ddysgu a chynnig cymorth ychwanegol pan fo angen
- Cynnig cymorth i ddysgwyr sydd wedi bod yn absennol a'u cynorthwyo i wneud y gwaith a gollwyd - gall hyn gynnwys gweithio gyda rhieni a gwasanaethau arbenigol
- Rhoi gwybod i rieni sut mae anghenion gofal iechyd yn effeithio ar y dysgwr yn y lleoliad addysg Gallai hyn gynnwys rhoi gwybod am unrhyw ddirywiad, pryderon neu newidiadau ynghylch arferion y dysgwr neu staff

### **3.5 Rhieni / Gofalwyr / Dysgwyr**

Mae'n hanfodol bod dysgwyr a rhieni yn chwarae eu rhan yn y gwaith o gynllunio a rheoli anghenion gofal iechyd. Bodloni anghenion yr unigolyn ddylai fod yn ganolog i'r gwaith o wneud penderfyniadau a llunio prosesau. Mae CCUHP yn nodi y dylai dysgwyr allu cael gafael ar wybodaeth briodol sy'n hanfodol o ran eu hiechyd a datblygiad a chael cyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hiechyd

#### **3.5.1 Dylai rhieni a dysgwyr:**

- Gael y newyddion diweddaraf ynglŷn â materion/newidiadau gofal iechyd sy'n digwydd yn y lleoliad addysg
- Cymryd rhan yn y gwaith o lunio, datblygu ac adolygu CGIU (os oes un ar gael). Mae'n bosib mai'r rhiant a'r dysgwr sy'n gwybod orau sut mae eu hanghenion gofal iechyd yn effeithio arnynt. Dylid sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn yn y trafodaethau ynglŷn â sut y caiff anghenion gofal iechyd y dysgwr eu bodloni yn y lleoliad addysg, ac yn cyfrannu at lunio, a chydymffurfio â'u CGIU.

- Cyflwyno gwybodaeth ddigonol a chyfredol am anghenion gofal iechyd i'r lleoliad addysg, gan gynnwys unrhyw ganllawiau ar roi meddyginiaeth a/neu driniaeth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Pan fo'n briodol, dylid annog a galluogi dysgwyr i reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain
- Rhoi gwybod i'r lleoliad addysg am unrhyw newidiadau megis natur y feddyginiaeth, y dos a chyfarwyddiadau o ran sut i'w roi i'r person dan sylw.
- Sicrhau bod modd cysylltu â'r oedolyn penodol ar bob adeg a bod yr holl ffurflenni angenrheidiol wedi'u cwblhau a'u llofnodi
- Rhoi gwybod i'r lleoliad addysg os yw plentyn yn/wedi dioddef afiechyd neu gyflwr heintus tra ei fod yn yr ysgol

### **3.6 Awdurdod Lleol**

Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod darpariaeth addysg ar gael i ddysgwyr, ac:

- Mae'n rhaid iddynt wneud newidiadau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc anabl dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae'r ddyletswydd hon yn rhagflaenol. Er enghraifft, ni ddylai dysgwyr fod dan anfantais pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd ac yn dechrau yn yr ysgol uwchradd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid cynllunio a rhoi addasiadau ar waith ymlaen llaw i osgoi unrhyw anfantais. Ni ddylai trafodaethau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth effeithio ar y gwasanaeth, oherwydd gall oedi gael effaith andwyol ar addysg a llesiant y dysgwr.
- Mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau i hybu gwaith ar y cyd rhwng amrywiol gyrrff neu bersonau, gyda'r nod o wella llesiant plant, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a meddyliol, eu haddysg, hyfforddiant a hamdden. Wrth wneud y trefniadau hyn, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cytundebau priodol ar waith ar gyfer rhannu data. Gellir gwneud hyn drwy weithio o fewn fframwaith Protocolau Rhannu Gwybodaeth Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru neu Gytundebau Datgelu Gwybodaeth.
- Mae'n rhaid gwneud darpariaeth resymol o ran cynnig gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc 11 – 18 oed a dysgwyr ym Mlwyddyn 6 ysgol gynradd Mewn ysgolion, dylai'r ddarpariaeth hon ategu'r gwahanol ddulliau sydd eisoes ar waith i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr
- Dylai awdurdodau lleol gydweithio â lleoliadau addysgu i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd wedi cael addysg addas Pan na fyddai dysgwr o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod oherwydd eu hiechyd, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol gwneud trefniadau i ddarparu addysg addas Os yw dysgwr yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol hwn ond yn iau nag 18 oed, mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y trefniadau hynny
- Dylai'r awdurdodau gynnig cefnogaeth, cyngor a chanllawiau, gan gynnwys sut i fodloni anghenion hyfforddiant staff lleoliadau addysg, fel y gall cyrff llywodraethu sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r gefnogaeth a nodir yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol ar waith yn effeithiol

### **3.7 Gwasanaeth nyrsio iechyd ysgolion Cymru, gweithwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill, sefydliadau trydydd sector a gwasanaethau arbenigol eraill**

Mae nifer o sefydliadau yn cynnig cymorth gofal iechyd a chymorth ymarferol. Mae lleoliadau addysg yn gallu manteisio ar wasanaeth cyngor iechyd. Gall cwmpas a natur y cymorth y gwasanaeth a gynnigir gynnwys:

- Cynnig cyngor ar lunio CGIUau
- Cynorthwyo i nodi'r hyfforddiant sydd ei angen i alluogi sefydliadau addysg i roi CGIUau ar waith yn llwyddiannus
- Cynorthwyo staff i roi CGIU dysgwr ar waith drwy gynnig cyngor a chydgylltu â gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector

Gall gweithwyr iechyd proffesiynol megis meddygon teulu, paediatregwyr, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, dietegwyr a nyrsys diabetes arbenigol gynnig cyngor a chymorth yn ogystal. Mae cyrff trydydd sector gwirfoddol hefyd yn gallu cyngor a chymorth ymarferol. Gall cysylltu â gwasanaethau arbenigol yn rhagweithiol bod o gymorth ymarferol wrth ysgrifennu a rhoi CGIUau ar waith. Gallant hefyd gynnig adnoddau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys dolenni fideo.

#### 4. 4. Creu amgylchedd cynhwysol

Dylai awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu sicrhau bod eu lleoliadau addysg yn gynhwysol a hygyrch a gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Mae hynny yn cynnwys y canlynol:

##### 4.1 Adeiladau addysg hygyrch

Rhoddir dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi strategaeth hygyrchedd ysgrifenedig ar gyfer yr holl ysgolion y maent yn gyfrifol amdanynt dan Ddeddf Addysg 2010. Disgwylir i'r strategaeth hon gynnwys:

*'gwella amgylchedd corfforol ysgolion at y diben o gynyddu i ba raddau y gall disgyblion anabl fanteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a gynigir gan yr ysgolion' (atodlen 10, Deddf Addysg 2010)*

Yn yr un modd, mae'n rhaid i ysgolion unigol gynllunio ar gyfer hygyrchedd ac maent o dan ddyletswydd i baratoi cynllun hygyrchedd sy'n dilyn yr un egwyddorion â'r strategaethau a baratoir gan yr awdurdod lleol.

##### 4.2 Addasiadau rhesymol - cymhorthion neu wasanaethau atodol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau dysgu i wneud 'addasiadau rhesymol' ar gyfer dysgwyr sy'n anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf. O ran y dysgwyr hyn, mae'n rhaid darparu cymhorthion neu wasanaethau atodol (gyda'r nifer priodol o staff hyfforddedig).

##### 4.3 Teithiau undydd ac ymweliadau preswyl

4.3.1 Dylai Cyrff Llywodraethu sicrhau bod y lleoliad addysg yn cynnig cymorth i'r holl ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd i'w galluogi i gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau. Mae'n rhaid i gyrrff llywodraethu fod yn ymwybodol o'r angen i fodloni'r gofynion cyfreithiol o ran gwneud addasiadau rhesymol i deithiau undydd ac ymweliadau preswyl er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan ynddynt.

4.3.2 Dylai staff wybod sut y gall anghenion gofal iechyd dysgwr effeithio ar ei allu i gymryd rhan, a bwrw ati i wneud unrhyw addasiadau rhesymol, a fyddai'n cynyddu lefel cyfranogiad y dysgwr. Dylai staff ystyried sut i wneud trefniadau rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti ar gyfer gweithgareddau a gynhelir oddi ar y safle os yw hynny'n angenrheidiol (gan gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pharchu hawliau preifatrwydd y dysgwr). Gall hyn gynnwys unrhyw wybodaeth am anghenion gofal iechyd dysgwyr, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth, meddyginiaeth neu offer ychwanegol sydd eu hangen.

4.3.3 Efallai y bydd angen rhoi mesurau diogelwch ychwanegol ar waith yn y lleoliad i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn ystod ymweliadau neu weithgareddau y tu allan i amserlen arferol yr ysgol. Efallai y bydd angen gwneud trefniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth a sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael ar gyfer ymweliadau preswyl.

4.3.4 Dylai'r holl staff sy'n arolygu ymweliadau fod yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwr yn ogystal ag unrhyw weithdrefnau meddygol i'w rhoi ar waith mewn argyfwng. Mae taflenni crynhoi a gedwir gan yr holl staff, sy'n cynnwys manylion am anghenion pob person ifanc ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a roddir gan rieni, yn un ffordd o gyflawni hyn. Os yw'n briodol, dylai aelod gwirfoddol o staff gael ei hyfforddi i roi meddyginiaeth, os nad yw eisoes wedi'i hyfforddi, a dylai fod yn gyfrifol os bydd argyfwng meddygol.

Mae'n bosib y gofynnir i rieni gyflwyno'r canlynol:

- Manylion am gyflyrau meddygol
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn meddyg teulu'r dysgwr
- Gwybodaeth o ran p'un a yw'r dysgwr wedi treulio noson oddi cartref o'r blaen a'i allu i ymdopi'n effeithiol
- Manylion ysgrifenedig unrhyw feddyginiaeth sydd ei hangen (gan gynnwys cyfarwyddiadau o ran y dos/amserau)
- Caniatâd rhieni os oes angen i'r person ifanc gymryd ei feddyginiaeth ei hun neu ddod cytundeb gyda nhw i aelod gwirfoddol o'r staff allu ei roi
- Gwybodaeth am unrhyw alergeddau / ffobias
- Gwybodaeth am unrhyw ofynion dietegol arbenigol
- Gwybodaeth am unrhyw anawsterau o ran mynd i'r tŷ bach, offer arbennig neu gynorthwyon ar gyfer bywyd bob dydd
- Anghenion trafndiaeth arbennig i'r dysgwr a phobl ifanc sydd angen help i symud
- Tystysgrif 'ffit i deithio' gan y meddyg teulu/meddyg ymgynghorol os oes gan y plentyn angen meddygol sylweddol (heb yr yswiriant mae'n bosibl y bydd hon yn annilys)

#### **4.4 Ryngweithio Cymdeithasol**

4.4.1 Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod cynnwys dysgwyr ag anghenion gofal iechyd wedi cael ystyriaeth ddigonol mewn gweithgareddau strwythuredig a hamddenol, megis yn ystod yr egwyl, yn y clwb brechwast, mewn cynyrchiadau, clybiau ar ôl ysgol ac yn ystod ymweliadau preswyl.

4.4.2 Dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r rhwystrau cymdeithasol y gall dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eu hwynebu a sut y gall hyn arwain at fwllo ac allgau cymdeithasol. Mae angen rhoi dull rhagweithiol ar waith i ddymchwel unrhyw rwystrau.

#### **4.5 Ymarfer corff a gweithgarwch corfforol**

4.5.1. Dylai'r lleoliad addysg feddu ar ddealltwriaeth lawn o bwysigrwydd gweithgareddau corfforol i bob dysgwr a dylai staff wneud addasiadau rhesymol i chwaraeon a gweithgareddau eraill er mwyn eu gwneud yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a chwaraeon tîm.

4.5.2 Dylid sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr a sbardunau posibl. Dylent wybod sut i ymateb yn briodol a phrydlon os rhoddir gwybod iddynt fod dysgwyr yn teimlo'n sâl. Dylent bob amser ofyn am gyfarwyddyd wrth ystyried sut y gall cymryd rhan mewn



gweithgareddau corfforol neu weithgareddau eraill effeithio ar ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

4.5.3 Dylid osgoi gwneud 'darpariaeth arbennig' ar gyfer gweithgareddau penodol, a chanolbwyntio yn hytrach ar weithgareddau sy'n hygyrch i bawb. Pan na fydd hynny yn bosibl, dylid gofyn am gyngor gan weithwyr gofal iechyd neu addysg gorfforol proffesiynol a chan y dysgwr ei hun.

4.5.4 Dylai staff hefyd ddeall efallai y bydd yn briodol i rai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fod â meddyginiaeth neu fwyd wrth law pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol; dylid annog y dysgwyr hyn i gymryd y feddyginiaeth neu fwyd yn ôl y galw.

#### **4.6. Rheoli Bwyd**

4.6.1 Pan fo bwyd yn cael ei ddarparu gan neu drwy'r lleoliad addysg, dylid ystyried anghenion dietegol dysgwyr e.e. y rheiny sydd â diabetes, clefyd seliag, alergeddau neu anoddefiadau bwyd.

4.6.2 Pan fo angen, dylai lleoliad addysg roi bwydlenni i rieni a dysgwyr ymlaen llaw, gyda rhestr gyflawn o'r cynhwysion a gwybodaeth am faeth. Rhaid nodi glwten ac anoddefiadau neu alergeddau eraill yn glir. Bydd cynnig gwybodaeth yn helpu rhieni a thimau arlwyyo i gydweithio. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo angen cyfrif carbohydradau. Dylid hefyd ystyried p'un a ddylai byrbrydau fod ar gael. Dylid sicrhau bod fersiynau heb siwgr a heb glwten ar gael bob amser. Gan fod angen bwyta ac yfed llawer o galoriau oherwydd rhai cyflyrau, dylid sicrhau bod bwyd a diod sy'n cynnwys llawer o glwcos ar gael.

4.6.3. Dylai bwyd a ddarperir ar gyfer teithiau adlewyrchu anghenion a thriniaethau dietegol y dysgwyr sy'n cymryd rhan. Dylai bwyd a ddarperir yn yr ystafell ddosbarth hefyd ateb anghenion a thriniaethau dietegol y dysgwyr hyn. Er bod polisiau ysgolion iach a 'dim losin' yn cael eu hystyried yn bwysig, mae'n bosib y bydd rhaid eithrio dysgwyr ag anghenion gofal iechyd o'r polisiau hyn. Ni ddylai dysgwyr sydd angen bwyta neu yfed oherwydd cyflwr gael eu gwahardd o'r ystafell ddosbarth na chael eu rhoi mewn ystafell ar wahân.

#### **4.7 Asesiadau risg**

4.7.1 Dylai staff yn fod yn glir o ran pryd y mae angen cynnal asesiad risg a dylent fod yn ymwybodol o'r systemau asesu risg sydd ar waith. Dylent anelu at fod yn gynhwysol yn y lle cyntaf a chynnwys yn yr asesiad y broses o geisio gwneud addasiadau neu gynnal gweithgareddau amgen yn hytrach na sefydlu darpariaeth ar wahân.

4.7.2 Hefyd, mae dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n gofyn am baratoi a rhoi strategaethau a chynlluniau hygyrchedd ar waith. Mae'r strategaethau a chynlluniau dan sylw yn delio â materion sy'n ymwneud a chynyddu cyfranogiad dysgwyr anabl.

### **5. 5. Rhannu Gwybodaeth**

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau y caiff y trefniadau ar gyfer anghenion gofal iechyd, gan gynnwys polisiau ehangach y lleoliad addysg a CGIUau, eu hategu gan drefniadau clir at ddibenion cyfathrebu â staff, rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau y cânt eu gweithredu'n llawn. Mae'n hanfodol fod yr holl wybodaeth dan sylw yn cael ei chadw'n gyfredol. Mae'n rhaid i bob dull o rannu gwybodaeth megis hysbysfyrddau staff a mewnrwyd ysgolion fod wedi'u cytuno ymlaen llaw gan y dysgwyr a rhiant cyn eu defnyddio, er mwyn cynnal cyfrinachedd.

## **5.1. Athrawon, athrawon cyflenwi a staff cynorthwyol (gall hyn gynnwys staff arlwyo a chontractwyr perthnasol)**

5.1.1 Dylai staff allu cael gafael ar y wybodaeth berthnasol, yn enwedig os oes posibilrwydd y bydd argyfwng yn codi. Bydd y ffordd y caiff hyn ei wneud yn dibynnu ar natur a maint y lleoliad a gall gynnwys:

- Pan fo'n addas, ac yn dilyn cael caniatâd priodol, hysbysfwrdd yn ystafell y staff a ddefnyddir i arddangos gwybodaeth am anghenion iechyd risg uchel, swyddogion a thystysgrifau cymorth cyntaf, gweithdrefnau argyfwng ac ati. Dylid nodi nad yw pob aelod staff yn defnyddio'r ystafell staff, y gallai maint lleoliadau addysg olygu bod y dull hwn o rannu gwybodaeth yn anymarferol. Oherwydd hynny, mae ffeil gyda'r wybodaeth berthnasol ar gael i bob aelod o staff yr ysgol yn swyddfa'r ysgol.
- Defnyddio mewnrwyd ddiogel y lleoliad addysg a chyfarfodydd staff i helpu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr y maent yn dod i gysylltiad â nhw neu y gallant ddod i gysylltiad â nhw.

## **5.2. Rhieni a dysgwyr**

5.2.1. Dylai rhieni a dysgwyr fod yn bartneriaid cyfranogol, ac i gyflawni hyn dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod rhieni yn gwbl ymwybodol o'r gofal a roddir i'w plentyn. Dylai rhieni a dysgwyr hefyd fod yn ymwybodol o'u hawliau a chyfrifoldebau eu hunain. I helpu i gyflawni hyn dylai'r lleoliad addysg:

- Sicrhau bod polisiau gofal iechyd ar gael yn rhwydd, ar-lein ac ar ffurf copi caled
- Rhoi copi o'u polisi ar rannu gwybodaeth i ddysgwyr/rhieni Dylai hwn nodi'r mathau o gyrff ac unigolion y gellir rhannu gwybodaeth feddygol y dysgwr â nhw
- Gofyn i rieni lofnodi ffurflen caniatâd, sy'n nodi manylion y cyrff, unigolion dan sylw a'r dulliau a ddefnyddir i rannu gwybodaeth â nhw. Gall rhannu gwybodaeth feddygol fod yn fater sensitif a dylid cynnwys y dysgwr mewn unrhyw benderfyniadau a wneir. Dylai lleoliadau addysg gadw rhestr o'r wybodaeth a rannwyd, gan gynnwys â phwy a pham, a'i rhoi i'r dysgwr/rhiant ei gweld ar gais
- Ystyried cynnwys dolen we i'r polisiau anghenion gofal iechyd mewn llythyrau perthnasol a anfonir at rieni, ac yn CGIU y dysgwr
- Cynnwys cynghorau ysgol, 'ysgolion iach' a grwpiau dysgwyr eraill yn y gwaith o lunio trefniadau anghenion gofal iechyd y lleoliad, pan fo'n briodol
- Ystyried sut y gall grwpiau cyfeillion a chyfoedion gynorthwyo dysgwyr, e.e. eu haddysgu am y sbardunau ac arwyddion bod problem gan ddysgwr, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng, ac i bwy i ofyn am help. Dylai'r lleoliad addysg drafod hyn gyda'r dysgwr a'r rhiant yn y lle cyntaf a phenderfynu p'un a ellir rhannu'r wybodaeth hon.

## **6. Gweithdrefnau a chymau cadw cofnodion at ddibenion rheoli anghenion gofal iechyd dysgwr**

6.1 Dylai'r lleoliad addysg lunio gweithdrefnau sy'n nodi rolau/cyfrifoldebau'r holl bartion sy'n rhan o'r gwaith o nodi, rheoli a gweinyddu anghenion gofal iechyd. Dylid casglu a diweddarau'r ddogfennaeth ganlynol, pan fo'n briodol:

- ✓ Manylion cyswllt Gwasanaethau Brys
- ✓ Cytundeb rhwng rhieni a'r lleoliad addysg er mwyn iddo roi meddyginiaeth
- ✓ Cytundeb pennaeth y lleoliad i roi meddyginiaeth
- ✓ Cofnod o'r feddyginiaeth i'w chadw a'i rhoi i ddysgwr unigol
- ✓ Cofnod o'r meddyginiaethau a roddwyd i bob dysgwr yn ôl y dyddiad
- ✓ Cofnod hyfforddiant staff – rhoi meddyginiaethau

6.2 Dylid cwblhau cofnodion newydd pan fo newidiadau mewn perthynas â'r feddyginiaeth neu ddos. Dylai'r lleoliad addysg sicrhau ei fod yn nodi'n glir ar hen ffurflenni nad ydynt yn berthnasol bellach a'u cadw yn unol â'r polisi cadw gwybodaeth. Mae fersiynau electronig o'r rhain ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

6.2.1 Rhaid cofnodi pob meddyginiaeth a roddir ar y ffurflenni priodol. Os yw dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, dylai staff gofnodi hynny a dilyn y weithdrefn benodol o roi gwybod am y diffyg cydymffurfiaeth cyn gynted â phosib.

6.2.2 Mae'r enghreifftiau gorau o gadw cofnodion yn cynnwys systemau o roi cofnodion anghenion gofal iechyd y dysgwr ar gyfrifiadur i alluogi staff priodol i ddod o hyd iddyn nhw'n gyflym ac yn hawdd. Gall systemau data hefyd ei gwneud yn hawdd i staff agor y wybodaeth ofynnol yn yr ystafell ddsbarth pan nad ydynt yn gyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y dysgwyr. Mae'n rhaid i'r fath systemau gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

## **7. Storio, mynediad a rhoi meddyginiaethau a defnyddio dyfeisiau**

Gallai fod angen meddyginiaeth yn y lleoliad am lawer o resymau ac ni ddylid ond ei rhoi â chaniatâd gan y rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol. Ni ddylid rhoddi meddyginiaeth oni bai bod presgripsiwn wedi'i roi gan y meddyg teulu. Ni ddylid rhoi unrhyw feddyginiaethau sy'n cynnwys Aspirin i blant dan 16 oed.

Bydd yn rhaid i ddysgwr sydd angen cymryd meddyginiaeth gael Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGU).

### **7.1 Trefniadau rhoi meddyginiaeth yn y lleoliad**

- Dylid cwblhau ffurflen cais i rieni bob tro y mae cais am i staff y lleoliad roi meddyginiaeth (Ffurflen 3A a 3B yn Atodiad 1), neu i ddysgwr gymryd ei feddyginiaeth ei hun. Rhaid i'r pennaeth gytuno ar y trefniant hwn, ei ddogfennu a'i ddyddio. Rhaid cadw copi yn y ffeil berthnasol.
- Os bydd angen rhoi meddyginiaeth dros y tymor hir, rhaid cyflwyno llythyr gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol y dysgwr sy'n esbonio hynny'n rhan o'r cais.
- Dim ond ceisiadau ysgrifenedig gan weithiwr iechyd proffesiynol i newid y feddyginiaeth y dylid eu derbyn ac unwaith eto dylid cadw'r rhain ar ffeil. **Ni ddylid derbyn negeseuon llafar.**

### **7.2 Cymryd meddyginiaeth yn y lleoliad**

Ni ddylid caniatáu meddyginiaeth mewn lleoliad addysg oni bai bod arni label sy'n cynnwys:

- Enw'r dysgwr
- Enw a chryfder y feddyginiaeth
- Dos, amllder ac amser rhoi'r feddyginiaeth
- Dyddiad dod i ben
- Cyngor ar storio'r feddyginiaeth

### **7.3 Storio meddyginiaeth**

- Dylai meddyginiaeth gael ei chadw mewn cwpwrdd ac yn bell o blant a phobl ifanc eraill yn swyddfa'r ysgol. Rhaid rhoi rhai meddyginiaethau yn yr oergell. Os oes angen gwneud hynny, dylent fod mewn cynhwysydd sydd wedi'i selio a'i labelu'n glir. Rhaid i bob meddyginiaeth fod wedi'i labelu'n glir. Gellir cael cyngor pellach yng **Nghanllawiau COSHH, Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002**<sup>12</sup>.
- Yn y rhan fwyaf o achosion dylai anadlyddion asthma cael eu cadw yn lle diogel yn y dosbarth.
- Gall fferyllwyr lleol roi cyngor ar storio meddyginiaethau.

#### 7.4 Rhoi meddyginiaeth

- Dylai unrhyw staff sy'n fodlon rhoi meddyginiaeth gael hyfforddiant a chanllawiau priodol, a bod yn ymwybodol o unrhyw sgil effeithiau o'r feddyginiaeth. Mae'r wybodaeth hon yn y daflen wybodaeth.
- Ni chaiff rhieni anfon y feddyginiaeth i'r lleoliad mewn dosau/chwistrelli parod (oni bai bod y fferylllydd yn ei dosbarthu felly) nac mewn diodydd. Rhaid iddi ddod yn y pecyn gwreiddiol gyda label y fferyllfa arni. Rhaid i chwistrell gael ei darparu sy'n helpu i fesur y dds gywir.
- Rhaid rhoi meddyginiaethau yn ôl y presgripsiwn a roddwyd gan y meddyg teulu yn unig. Dylai rhieni sicrhau bod copi o hwn ar gael i'r lleoliad. Bydd angen ar leoliadau hysbysiad ysgrifenedig gan feddyg teulu os bydd y dosau neu'r meddyginiaethau'n newid.
- Ni ddylent gael eu rhoi os ydynt heibio'r dyddiad dod i ben. Bydd angen i rieni newid y feddyginiaeth ar unwaith, a chyfrifoldeb rhieni yw cael gwared ag unrhyw feddyginiaethau ddiangen.
- Mae'n arfer gorau i o leiaf dau aelod o staff wirio'r feddyginiaeth adeg ei rhoi. Dylid gwirio'r manylion canlynol:
  - **Dysgwyr Cywir** (enw a dyddiad geni)
  - **Meddyginiaeth Gywir** (dylai staff wybod at beth mae'r feddyginiaeth)
  - **Dos gywir** (wedi'i mesur â chwistrell)
  - **Llwybr Cywir** (Llyncu/gastrostomi/trwynol-gastrig)
  - **Amser Cywir**
- Gall y dysgwr gymryd rhai meddyginiaethau ar ei ben ei hun e.e. anadlyddion asthma. Dylai fod yn glir yn y ffurflenni meddyginiaeth yn y lleoliad a oes angen goruchwyliaeth ar y dysgwr ai peidio. Mae'n arfer da cofnodi adegau y mae gan blentyn neu berson ifanc feddyginiaeth hyd yn oed os yw'n ei gymryd ar ei ben ei hun.
- Dylid rhoi mesurau priodol ar waith neu drefniadau eraill os nad yw staff a enwir ar gael neu os ydyn nhw'n absennol.
- Dylai ffurflen fod wedi'i chwblhau i ddangos enw a dyddiad geni'r dysgwr, dyddiad, amser ac enw'r feddyginiaeth a'r dds, a dylai dau aelod o staff ei llofnodi. Mae cofnodi gwybodaeth gywir yn hollbwysig.
- Ni ddylai staff roi unrhyw feddyginiaeth os oes angen barn feddygol i benderfynu ar yr angen, oni bai ei fod yn achos brys, ond dylai hyn fod yn unol â'r cynllun gofal iechyd y cytunwyd arno.

#### 7.4 Rheoli Hylendid a Heintiau

<sup>1</sup> Control of Substances Hazardous to Health (COSHH) Regulations (2002) amended as required [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk)

<sup>2</sup> Control of Substances Hazardous to Health (COSHH) Regulations (2002) amended as required [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk)

- Dylai pob aelod o staff fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau osgoi heintiau arferol a dilyn gweithdrefnau hylendid sylfaenol. Dylai fod gan staff fenig diogel tafladwy a bod yn ofalus wrth ddelio â gwaed neu hylifau corfforol eraill ac wrth gael gwared â rhwymynnau neu offer.

## **7.6 Gwaredu meddyginiaethau**

- Dylai meddyginiaethau bob amser gael eu dychwelyd i'r rhieni eu gwaredu. Os nad yw hynny'n bosibl, dylid dychwelyd unrhyw feddyginiaethau nas defnyddiwyd i fferyllfa leol
- Ni ddylai meddyginiaethau gael eu gwaredu mewn sinciau neu doiledau
- Mae rhai meddyginiaethau (h.y. at ddiabetes) wedi'u paratoi ymlaen llaw ac mae'r rhain yn cynnwys nodwydd. Mae blychau deunyddiau miniog yn hanfodol i waredu'r nodwyddau ac mae'r rhain ar gael drwy gysylltu â'ch fferyllfa leol neu siarad â nyrs y lleoliad addysg.

## **7.7 Meddyginiaethau Brys**

- Rhaid i CGIU gynnwys cyfarwyddiadau i roi meddyginiaethau argyfwng (h.y. epi pen, midazolam bochaid) a chymau os bodd argyfwng
- Dylai staff wybod ble y mae meddyginiaethau argyfwng a dylai fod yn hawdd cael gafael arny'n nhw. Serch hynny, ni ddylai fod modd i blant a phobl ifanc gael gafael arny'n nhw.
- Ni ddylid defnyddio meddyginiaethau brys ar ddysgwyr arall sy'n dangos yr un symptomau. Os oes pryderon, rhaid ffonio ambiwlans. Y dysgwr y mae meddyginiaeth ar ei gyfer yn unig a gaiff ei chymryd.
- Dylai staff gael hyfforddiant ar sut i roi unrhyw feddyginiaethau brys. Os yw dysgwr yn anghofio'i feddyginiaeth brys, rhaid i'r rhiant naill ai ddod â hi i mewn yn syth neu rhaid i'r dysgwr fynd adref.
- Rhaid i'r rhieni a'r meddyg teulu gael gwybod os rhoddwyd meddyginiaethau brys ym mhob achos, a dylid cadw cofnodion yn y lleoliad.

## **8. Triniaethau Brys**

8.1 Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod polisi ar waith ar gyfer delio ag achosion brys. Dylai staff wybod pwy sy'n gyfrifol am y polisi, enwau'r swyddogion cymorth cyntaf a sut i ddelio ag anghenion gofal iechyd cyffredin. Os bydd angen cymorth, dylid ffonio 999 ar unwaith. Dylai staff wybod ble y mae cofnodion gofal iechyd y dysgwr a manylion cyswllt ar ei gyfer mewn argyfwng.

8.2 Os oes CGIU gan ddysgwyr, dylai hwnnw ddiffinio'n glir yr hyn a ystyrir yn achos brys ac esbonio beth i'w wneud. Dylai staff fod yn ymwybodol o symptomau a thriniaethau brys.

8.3 Dylai dysgwyr eraill yn y lleoliad addysg hefyd wybod beth i'w wneud yn gyffredinol os bydd achos brys, fel rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith. Os oes angen mynd â dysgwyr i ysbyty, dylai aelod o staff aros gyda'r dysgwr hyd nes bydd rhiant yn cyrraedd. Mae hynny'n cynnwys mynd gyda nhw yn yr ambiwlans i'r ysbyty. Dylai fod gan aelod o staff fanylion am unrhyw anghenion gofal iechyd sydd wedi dod i'r amlwg a meddyginiaethau.

8.4 Ni ddylid mynd â dysgwyr i'r ysbyty yng ngheir staff oni bai bod rhesymau neilltuol dros wneud hynny. Os oes angen gwneud hynny, mae'n rhaid i oedolyn arall fynd gyda'r dysgwr a'r aelod staff. Mae'n rhaid i staff gael yswiriant cerbyd Atebolrwydd Cyhoeddus

## **9. Hyfforddiant**

9.1 Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli, neu sy'n cynorthwyo'r rheiny ag anghenion gofal iechyd yn rhan o'u contract, yn cael hyfforddiant priodol. Dylai cyrff llywodraethu hefyd sicrhau bod eu polisi'n esbonio'n glir sut y maent yn bwriadu nodi a chefnogi nifer digonol o'r staff hyn.

9.2 Wrth gynorthwyo dysgwyr â'u hanghenion gofal iechyd, dylid cydnabod nad oes angen hyfforddiant arbenigol yn achos llawer o ymyriadau ac mai rôl y staff yw hwyluso gallu'r dysgwr i fodloni ei anghenion gofal iechyd ei hun.

9.3 Gall CGIUau adlewyrchu anghenion cymhleth sy'n gofyn i staff feddu ar wybodaeth a hyfforddiant arbennig. Gellid hefyd bod yr hyfforddiant hwn ymwneud â defnyddio cymhorthion megis offer clyw (dylai staff wybod sut i newid y batriâu) ac amrywiol dechnolegau addasu. Os cafodd y rhain eu cyflwyno gan weithwyr iechyd proffesiynol, yna gellir gofyn iddynt ddarparu rhai sy'n addas i'w defnyddio mewn lleoliadau addysg yn ogystal â chan ddysgwyr a theuluoedd.

9.4 Dylai'r hyfforddiant a gynigir fod yn ddigonol i sicrhau bod staff yn gymwys, a'u bod yn hyderus o ran eu gallu i gefnogi dysgwyr a chyflawni gofynion CGIU. Yn hollbwysig, dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys mewnbwn gan y dysgwr a rhieni, sydd yn aml yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi gwybod am ffyrdd o ddiwallu anghenion. Serch hynny, ni ddylid dibynnu'n unig ar y rhieni i roi hyfforddiant ar anghenion gofal iechyd eu plentyn.

9.5 Os oes gan ddysgwyr anghenion cymhleth, mae'n bosib y bydd angen mewnbwn gan wasanaethau gofal iechyd a'r awdurdod lleol a fydd yn gallu cynghori ac awgrymu ffynonellau hyfforddiant a chefnogaeth pellach.

9.6 Gall pob aelod o staff ddod i gysylltiad â dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, p'un a yw wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd neu beidio. Felly, y peth mwyaf doeth yw sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth sylfaenol o gyflyrau cyffredin er mwyn sicrhau ei fod yn gallu adnabod symptomau a deall ble i gael cymorth priodol. I gael rhagor o wybodaeth am gyflyrau cyffredinol, darllenwch Becyn Cymorth Gofal Iechyd Awdurdod Lleol Caerdydd.

9.7 Dylai polisiâu gynnwys gweithdrefn i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau cyffredin, polisi anghenion gofal iechyd a rolau staff wrth gyflawni trefniadau. Dylai rhoi gwybod yn arbennig i staff newydd a staff dros dro am fesurau ataliol a brys sydd ar waith fel y gallant wybod pryd i ymyrryd ac ymateb yn gyflym.

9.8 Os nad yw'r staff sydd wedi'u hyfforddi i roi meddyginiaeth ar gael, dylai'r CGIU nodi trefniadau eraill. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i hynny wrth asesu risgiau a chynllunio gweithgareddau a gynhelir oddi ar y safle hefyd.

## **10. Cymwysterau ac asesiadau**

10.1 Mae cydgysylltu effeithlon ac effeithiol yn hollbwysig pan fo asesiadau o ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn nesáu, gan gynnwys y rhai sy'n sefyll arholiadau mewn ysbyty neu yn y cartref. Gall yr elfen gwaith cwrs helpu dysgwyr i beidio â chwympo y tu ol i'w cyfoedion. Efallai y bydd yn bosib i athrawon y cartref a'r ysbyty wneud trefniadau i ganolbwyntio ar yr elfen hon o'r gwaith i wneud yn iawn am golli gwersi tra byddant i ffwrdd. Mae cydgysylltu rhwng y lleoliad addysg ac athro'r ysbyty neu'r tiwtor cartref yn bwysig iawn, yn enwedig pan fo'r dysgwr yn symud o leoliad addysg neu gartref i'r ysbyty yn rheolaidd.

10.1 Gall cyrff dyfarnu wneud trefniadau arbennig ar gyfer dysgwyr ag anabledau neu anawsterau dysgu parhaol neu hirdymor, neu anabledau a salwch dros dro, sy'n sefyll arholiadau cyhoeddus. Dylai ysgolion gyflwyno ceisiadau am drefniadau arbennig i gyrff dyfarnu cyn gynted â phosibl. Mae canllawiau llawn ar yr ystod o drefniadau arbennig sydd ar gael a'r gweithdrefnau o ran gwneud cais wedi'u cynnwys yng nghylchlythyrau'r Cydgyngor Cymwysterau 'Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr ag anabledau ag anabledau dysgu (2016).

## **11. Addysg Heblaw yn yr Ysgol**

11.1 Dylai dysgwr nad yw'n gallu mynychu lleoliad addysg oherwydd ei anghenion gofal iechyd gael nodi ei anghenion addysg, a chael cymorth addysgol yn gyflym fel y gall barhau i gael addysg addas. Dylai natur y ddarpariaeth fod yn ymatebol; dylai adlewyrchu anghenion statws iechyd a allai fod yn newidiol.

11.2 Pan fo absenoldebau'n cael eu rhagweld neu'n anochel, dylai cydgysylltu agos rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol ei gwneud yn bosibl rhoi gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol ar waith ar ddechrau'r absenoldeb.

11.3 Mae cydweithio rhwng staff addysg, iechyd a staff gweinyddol yn yr ysbyty yn hanfodol. Y nod ddylai fod sicrhau'r budd gorau posib i addysg ac iechyd y dysgwr, a dylai hynny gynnwys creu amgylchedd sy'n cefnogi dysgu effeithiol. Gall rhieni fod yn ddolen gyswllt werthfawr hefyd.

11.4 Mae'n bosib y caiff dysgwyr ag anghenion gofal iechyd cymhleth eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chynllun gofal ysgrifenedig. Pan fo hynny'n digwydd, dylai'r cynllun gofal ysgrifenedig cael ei integreiddio ag unrhyw GGIU.

## **12. Trafnidiaeth ysgol**

12.1 Mae dyletswyddau statudol ar yr awdurdod lleol, y pennaeth a'r corff llywodraethu mewn perthynas â theithiau dysgwyr i'r man lle maent yn cael eu haddysg neu hyfforddiant. Er enghraifft, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol drefnu trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol i ddysgwr, neu ddarparu hebryngwyr cymwys ar gyfer y fath siwrneiau i hwyluso dysgwr i fynychu'r ysgol.

## **13. Adolygu polisïau, trefniadau a gweithdrefnau**

13.1 Dylai'r cyrff llywodraethu sicrhau y caiff yr holl bolisiau, trefniadau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd gan eu lleoliad addysg. Gall fod angen adolygu'r CGIUau yn gyson gan ddibynnu ar yr anghenion gofal iechyd - dylai hynny gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, y dysgwr, rhieni, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd a chyrrff perthnasol eraill.

## **14. Trefniadau yswiriant**

14.1 Dylai cyrrff llywodraethu lleoliad addysg a gynhelir sicrhau bod yswiriant priodol ar waith i gwmpasu gweithgareddau'r lleoliad i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai lefel yr yswiriant dan sylw adlewyrchu'r lefel risg briodol. Efallai y bydd angen trefnu yswiriant pellach ar gyfer rhai gweithgareddau neu weithdrefnau gofal iechyd i ddysgwyr ag anghenion penodol. I gael rhagor o ganllawiau am hyn, darllenwch Becyn Cymorth Awdurdod Lleol Caerdydd - *Cefnogi dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd (Ebrill 2017)*.


**15. Gweithdrefn Gwyno** - Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefn gwyno sydd ar gael ar wefan yr ysgol neu o swyddfa'r ysgol.

## **16. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)**

16. Dylai cyrrff llywodraethu sicrhau bod polisi'r lleoliad addysg yn trafod rôl cynlluniau gofal iechyd unigol, a phwy sy'n gyfrifol am eu llunio wrth gefnogi dysgwyr â chyflyrau meddygol mewn lleoliad addysg.

16.2 Gall CGIU (Gweler Ffurflen 2, yn Atodiad 1) gynorthwyo lleoliadau i nodi'r mesurau diogelwch angenrheidiol i'w rhoi ar waith i gefnogi dysgwr ag angen gofal iechyd a sicrhau nad yw ef nac eraill yn cael eu rhoi mewn perygl. Byddant yn aml yn angenrheidiol, er enghraifft, pan fo cyflyrau'n newidiol a phan fo risg uchel y bydd angen ymyrraeth frys. Maent yn debygol o fod yn ddefnyddiol yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig pan fo'r cyflwr meddygol yn un hirdymor a chymhleth. Serch hynny, nid oes angen un ar bob plentyn a pherson ifanc.

16.3 Gall Cynllun Gofal Iechyd Unigol gadarnhau ar gyfer lleoliadau, rhieni a'r plentyn neu berson ifanc pa help y gall y lleoliad ei roi a'i gael. Dylai fod lefel o hyblygrwydd er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau annisgwyl i anghenion gofal iechyd y dysgwr.



## 16.2 Rolau a Chyfrifoldebau wrth greu a rheoli CGIUau

16.2.1 Does dim rhaid i CGIUau fod yn gymhleth ond dylent esbonio sut y gellir bodloni anghenion y dysgwr. Dylai CGIU fod wrth law i bawb sydd angen cyfeirio ato, gan gynnal y lefelau preifatrwydd gofynnol. Dylai pob cynllun nodi gwybodaeth a chymau allweddol sy'n ofynnol i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol.

16.2.2 Mae'n rhaid i weithiwr iechyd proffesiynol arwain y gwaith o greu Cynllun Gofal Iechyd; gallai'r person hwn fod yn nyrs ysgol, yn nyrs arbenigol, yn ymwelydd iechyd anghenion arbennig neu'n feddyg ymgynghorol. Mae eu gwybodaeth am y cyflwr, meddyginiaeth, triniaethau brys a'r dysgwr yn hollbwysig. Dylent gael eu cwblhau drwy gynnwys:

- ✓ Y dysgwr (pan fo hynny'n bosibl)
- ✓ Rhiant/gofalwr
- ✓ Mewnbwn neu wybodaeth gan leoliad addysg blaenorol
- ✓ Gweithwyr gofal iechyd priodol
- ✓ Proffesiynau gofal cymdeithasol
- ✓ Y Pennaeth a/neu unigolyn cyfrifol dynodedig sy'n gofalu am anghenion gofal iechyd ym mhob rhan o'r lleoliad
- ✓ Athro a staff cynorthwyol, gan gynnwys staff arlwygo os yw hynny'n berthnasol
- ✓ Unrhyw unigolyn sy'n cyflawni rolau perthnasol megis cydlynnydd cymorth cyntaf, swyddog llesiant a Chydlynnydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol)
- ✓ Staff y lleoliad sydd wedi cytuno i roi meddyginiaeth neu gael eu hyfforddi mewn triniaethau brys

**Gallai Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU) gynnwys:**



- ✓ Y cyflwr meddygol; ei sbardunau, arwyddion, symptomau a thriniaethau a sut y caiff ei reoli o ddydd i ddydd, yn arbennig yn ystod oriau gwaith y lleoliad
- ✓ Anghenion y dysgwr: gan gynnwys meddyginiaeth (dos, sgil effeithiau a storio) a thriniaethau eraill; amser; cyfleusterau; offer; profion; mynediad at fwyd a diod pan fo'r rhain yn cael eu defnyddio i reoli'r cyflwr; gofynion dietegol; a materion amgylcheddol e.e. coridorau llawn pobl, amser teithio rhwng gwersi
- ✓ Cymorth penodol ar gyfer anghenion addysgol, cymdeithasol ac emosiynol y dysgwr
- ✓ Lefel y cymorth sydd ei angen (bydd rhai dysgwyr yn gallu bod yn gyfrifol am eu hanghenion iechyd eu hunain) gan gynnwys mewn argyfwng
- ✓ Pwy fydd yn rhoi'r cymorth hwn, ei anghenion hyfforddi a disgwyliadau yn y rôl
- ✓ Pwy yn y lleoliad sydd angen gwybod am anghenion gofal iechyd y dysgwr a'r cymorth sydd ei angen arno
- ✓ Protocol cyfnewid gwybodaeth rhwng addysg ac iechyd (os oes angen)
- ✓ Caniatâd ysgrifenedig gan rieni a'r Pennaeth i staff roi meddyginiaeth neu i'r dysgwr ei gymryd ar ei ben ei hun tra bo'r dysgwr yn y lleoliad
- ✓ Trefniadau neu weithdrefnau ar wahân sydd eu hangen ar gyfer trefnu teithiau neu weithgareddau eraill y lleoliad y tu allan i'r amserlen a fydd yn sicrhau y gall y dysgwr gymryd rhan e.e. asesiadau risg
- ✓ Os bydd y rhiant/plentyn/person ifanc yn sôn am faterion cyfrinachedd, dylid rhoi gwybodaeth i'r unigolion dynodedig am gyflwr y plentyn
- ✓ Trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol – cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hwn
- ✓ Gweithdrefnau brys gan gynnwys â phwy i gysylltu a threfniadau mewn argyfwng. Mae'n bosib y bydd gan rai dysgwyr gynllun gofal iechyd brys a baratowyd gan eu prif glinigwr y gellid ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o lunio eu cynllun gofal iechyd unigol.
- ✓ Datganiad o effaith a baratowyd ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro sy'n nodi sut mae cyflwr gofal iechyd y dysgwr a/neu driniaethau yn effeithio ar ei ddysgu a pha gamau y mae'n rhaid eu dilyn i liniaru'r effeithiau hyn
- ✓ Dyddiad Adolygu

16.2.3 Os oes angen adolygu'r cynllun, dylai'r lleoliad a'r gweithiwr iechyd proffesiynol gyfarfod â'r rhieni a dylid ysgrifennu cynllun newydd a ddylai gael ei lofnodi gan bawb.

16.2.4 The Dylai'r cynllun hefyd fod ar gael i **bob aelod o staff** sy'n dod i gysylltiad â'r dysgwr.

16.2.5 Os yw cyflwr y dysgwr yn ddirywiol neu'n peryglu ei fywyd, dylai'r cynllun adlewyrchu'r anghenion ychwanegol hyn a dylent gynnig digon o wybodaeth i staff y lleoliad. Dylai'r cynllun gynnwys manylion am y cyflwr, beth i'w wneud ac â phwy i gysylltu mewn argyfwng. Bydd angen cynnal adolygiadau mwy aml yn achos y rhai sy'n dibynnu ar dechnoleg yn sgil eu cyflwr, neu y gallai'r cyflwr gyfyngu ar hyd eu bywyd.

16.2.6 Yn y rhan fwyaf o achosion ac yn enwedig yn achos salwch tymor byr megis y rhai sydd angen cwrs o feddyginiaeth wrthfotig, ni fydd angen CGIU. Yn y fath amgylchiadau, gallai fod yn ddigonol cofnodi enw'r feddyginiaeth, y dos, amser ei roi ac unrhyw sgil effeithiau posibl. Dylid cadarnhau'r gweithdrefnau hyn yn ysgrifenedig gyda'r dysgwr (pan fo'n briodol), y rhieni a'r lleoliad addysg.

### 16.3 Cydlynu gwybodaeth gyda gweithiwr gofal iechyd, y dysgwr a rhieni

Mae'r ffordd y caiff gwybodaeth am anghenion gofal iechyd dysgwr ei rhannu gyda gweithwyr cymdeithasol a gofal iechyd proffesiynol yn dibynnu ar ei ofynion a natur y lleoliad addysg. Dylai CGIU esbonio sut y caiff gwybodaeth ei rhannu a phwy fydd yn gwneud hynny. Gall yr unigolyn hwn fod yn bwynt cyswllt cyntaf i rieni a staff ac ef fyddai'n cydgysylltu ag asiantaethau allanol.

#### **16.4 Cyfrinachedd**

Mae'n bwysig bod staff perthnasol (gan gynnwys staff dros dro) yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd eu dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i GGIU. Mae CGIU yn debygol o gynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Mae'n rhaid i'r gwaith o rannu a storio gwybodaeth gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pheidio â mynd yn groes i hawliau preifatrwydd neu gyfrinachedd unigolion.

#### **16.5 Rôl y dysgwr o ran rheoli ei anghenion gofal iechyd ei hun**

Dylid annog dysgwyr sy'n ddigon galluog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu meddyginiaeth a'u triniaethau eu hunain wneud hynny. Dylid adlewyrchu hyn yn CGIU y dysgwr.

Pan fo modd, dylid galluogi dysgwyr i gludo eu meddyginiaethau a dyfeisiau perthnasol eu hunain gyda nhw, neu sicrhau eu bod yn gallu cael gafael arnynt ar frys. Mae'n bosibl y bydd angen goruchwyliaeth ar lefel briodol ar rai dysgwyr.

Os bydd dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth neu gyflawni triniaeth angenrheidiol, ni all staff ei orfodi i wneud hynny. Yn hytrach, dylent ddilyn y trefniadau a bennwyd gan y lleoliad, y cytunwyd arny'n nhw yn y CGIU. Dylid rhoi gwybod i rieni cyn gynted â phosibl fel y gellir ystyried trefniant amgen a dylid gofyn am gyngor iechyd lle y bo'n briodol.

### **17. Arfer Annerbyniol**

#### **Nid yw'r canlynol yn arfer derbyniol:**

- Atal dysgwr rhag mynychu ei addysg neu leihau ei oriau oherwydd ei anghenion gofal iechyd oni bai y byddai hyn yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr neu i eraill.
- Atal dysgwyr rhag gallu cael gafael yn rhwydd ar eu hanadlyddion, meddyginiaeth a rhag defnyddio eu meddyginiaeth, pan fo angen gwneud hynny
- Rhagdybio bod angen yr un driniaeth ar bob dysgwr sydd â'r un cyflwr
- Anwybyddu barn y dysgwr neu ei rieni, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd
- Anfon dysgwyr â chyflyrau meddygol adref yn aml am resymau sy'n gysylltiedig â'u cyflyrau meddygol nau eu hatal rhag aros ar gyfer gweithgareddau arferol y lleoliad, gan gynnwys cinio, oni bai fod hyn wedi'i nodi yn eu cynllun gofal iechyd neu asesiad risg unigol
- Anfon dysgwr sy'n sâl neu sydd angen cymorth i'r swyddfa neu'r ystafell feddygol ar ei ben ei hun neu gyda rhywun anwybodus ynghylch anghenion y dysgwyr neu rywun nad yw'n gallu ei fonitro'n briodol
- Cosbi dysgwr am ei gofnod presenoldeb os yw ei absenoldeb yn gysylltiedig â'i gyflwr meddygol e.e. apwyntiadau ysbyty.
- Atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu fynd i'r tŷ bach neu gymryd egwyl arall pan fo angen hynny arnynt er mwyn trin eu cyflwr meddygol yn effeithiol
- Gofyn i rieni fynychu'r lleoliad addysg, taith neu weithgaredd arall oddi ar y safle i roi meddyginiaeth neu gymorth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys ar gyfer problemau'n ymwneud â defnyddio'r tŷ bach neu fel arall roi pwysau arnynt

- Atal dysgwyr, neu godi rhwystrau diangen iddyn nhw, rhag cymryd rhan mewn unrhyw agwedd ar fywyd yn y lleoliad, gan gynnwys teithiau'r lleoliad e.e. trwy ofyn i rieni fynd gyda'u plant.
- Gofyn i ddysgwr adael yr ystafell ddosbarth neu weithgaredd os oes angen iddo gymryd meddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth bersonol neu fwyta bwyd yn unol â'i anghenion iechyd
- Disgwyl neu achosi i riant roi'r gorau i weithio neu ymryddhau o ymrwymadau eraill oherwydd bod y lleoliad addysg yn methu â chefnogi anghenion gofal iechyd dysgwr
- Gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol ar gyfer dysgwr yn ddirybudd. Dylid gwneud trefniadau o'r fath mewn da bryd. Dylid ystyried hefyd a oes angen addasiadau neu amser ychwanegol mewn ffug arholiadau neu brofion eraill

Gweler yr adran 'Arferion Annerbyniol' yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd'.

## **Amlinelliad o'r fframwaith cyfreithiol**

Mae dyletswyddau amrywiol ar ysgolion ac awdurdodau lleol o ran diogelu lles plant a phobl ifanc gydag anghenion gofal iechyd yng nghyd-destun addysg. Amlinellir y prif ddarpariaethau isod.

Nid rhestr gynhwysfawr o'r gyfraith sy'n berthnasol i'r pwnc hwn yw hon. Nid yw ychwaith yn ddatganiad neu'n ddisgrifiad cyflawn o'r gyfraith; dim ond y llysoedd all roi'r rhain. Crynodebau o'r prif ddarpariaethau perthnasol yw'r disgrifiadau isod. At unrhyw ddyletswydd benodol, ceir darpariaethau statudol pellach a gallai cyfraith achosion (ac o bosibl ddatblygiadau ar ôl cyflwyno'r canllaw hwn), effeithio ar ystyr y darpariaethau (e.e. diffinio termau), neu sut y caiff swyddogaeth ei chyflawni (e.e. materion y mae'n rhaid i'r person sy'n cyflawni'r swyddogaeth eu hystyried). Ni ddylid dibynnu arno yn lle ceisio cyngor cyfreithiol neu ddarllen y darpariaethau eu hunain. Mae modd gweld deddfwriaeth yn [www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk) er nad yw pob elfen wedi'i hadolygu nac yn gyfredol.

## Cyffredinol

Yn unol â'r gyfraith gyffredinol, mae gan y bobl hynny sy'n gyfrifol am ofalu am blant a phobl ifanc ac sy'n eu goruchwyllo, gan gynnwys athrawon, ac aelodau staff eraill sy'n gofalu am blant, ddyletswydd gofal i weithredu fel y byddai rhiant rhesymol ochelgar yn gweithredu gyda'i blant ei hun.

Gallai person heb gyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc, ond sy'n gofalu am y plentyn hwnnw, wneud yr hyn sy'n rhesymol ym mhob amgylchiad o'r achos at y diben o ddiogelu neu hybu lles y plentyn. Mae hynny'n amodol, er enghraifft, ar orchymyn llys sy'n gwahardd camau penodol mewn perthynas â'r plentyn neu berson ifanc hwnnw heb ganiatâd y Llys (**Adran 3(5) o Ddeddf Plant, 1989**)<sup>3</sup>.

## Dyletswyddau statudol cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

- Wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â rheoli'r ysgol, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) hybu lles disgyblion yn yr ysgol (**Adran 21(5) o Ddeddf Addysg, 2002**)<sup>4</sup>.
- Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) wneud trefniadau i sicrhau y cyflawnir eu swyddogaethau mewn perthynas â rheoli'r ysgol gyda'r bwriad o ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc (h.y. y rheiny dan 18 oed) sy'n ddisgyblion yn yr ysgol (**Adran 175(2) o Ddeddf Addysg**). Wrth ystyried y trefniadau sydd eu hangen, dylai'r corff llywodraethu ystyried unrhyw arweiniad gan weinidogion Cymru<sup>5</sup> (**Adran 175(4) o Ddeddf Addysg, 2002**). Mae cyrff llywodraethu hefyd yn destun dyletswyddau dan **Ddeddf Cydraddoldeb, 2010**<sup>6</sup> - gweler yr adran isod am fwy o fanylion.

## Dyletswyddau statudol awdurdodau lleol

- Mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau cyffredinol mewn perthynas â darparu addysg ar gyfer eu hardal (*yn benodol adrannau 13 i 14, 15A, 15B o Ddeddf Addysg, 1996*)<sup>7</sup>.
- Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i ddarparu addysg addas (mewn ysgol neu fel arall), ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn cael addysg o ganlyniad i unrhyw gyfnod o ganlyniad i salwch, cael eu hallgau o'r ysgol neu fel arall (*Adran 19(1) o Ddeddf Addysg, 1996*). Ar ran pobl ifanc (h.y. y rheiny sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond dan 18 oed), mae'r grym gan

<sup>3</sup> **Children Act, 1989** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents/enacted>

<sup>4</sup> **Education Act, 2002** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents>

<sup>5</sup> This power is now vested in the Welsh Ministers, rather than the National Assembly for Wales, by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the **Government of Wales Act, 2006** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents>

<sup>6</sup> **Equality Act, 2010** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

<sup>7</sup> **Education Act, 1996** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents>

awdurdodau lleol (yn hytrach na ddyletswydd), i wneud trefniadau o'r fath yn yr amgylchiadau hynny (*Adran (4) o Ddeddf Addysg, 1996*). Wrth benderfynu ar y trefniadau i'w gwneud dan *Adran 19(1) neu 19(4)*, yn achos unrhyw blentyn neu berson ifanc, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried unrhyw arweiniad a roddir gan weinidogion Cymru.

- Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i sicrhau y cyflawnir ei swyddogaethau addysg gyda'r bwriad o ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc (h.y. dan 18 oed), (*Adran 175(1) o Ddeddf Addysg, 2002*).

Wrth ystyried y trefniadau sydd eu hangen, dylai'r awdurdod lleol roi ystyriaeth i unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru (gweler troednodyn 3 ar y dudalen flaenorol), (*Adran 175 (4) o Ddeddf Addysg, 2002*). Cyhoeddir rhywfaint o'r arweiniad hwn dan *Adran 175(4)* – fe'i nodir mewn ffont trwm.

- Mae ar awdurdodau lleol ddyletswydd gyffredinol i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc sydd mewn angen yn eu hardal (ac i hyrwyddo magwraeth y plant hynny gan eu teuluoedd i'r graddau y mae gwneud hynny'n gyson â hynny) trwy gynnig ystod o wasanaethau ar lefel sy'n briodol i anghenion y plant hynny (*Adran 17 o Ddeddf Plant 1989*).
- Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu cydweithrediad rhwng pobl a chyrff amrywiol, gan gynnwys bwrdd iechyd lleol ar gyfer ardal o fewn ffiniau'r awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth y GIG sy'n cynnig gwasanaethau yn yr ardal. Dylid gwneud y trefniadau gyda'r bwriad o gyflawni'r canlynol:
  - Gwella lles plant a phobl ifanc yn yr ardal;
  - Gwella ansawdd Gofal a Chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ardal (pan fo newidiadau a wnaethpwyd gan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), 2014** yn dod i rym)<sup>8</sup>.
  - Amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef cam-drin a niwed arall (pan fo'r newidiadau hynny'n dod i rym), (*Adran 25 o Ddeddf Plant, 2004*)<sup>9</sup>.
- **Mae Rheoliadau Addysg (Safle Ysgol), 1999, Offeryn Statudol 1999/2<sup>10</sup>** yn amlinellu gofynion (y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt) i gyfleusterau mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion ynghylch lle y caiff profion meddygol a thriniaeth ar gyfer disgyblion eu cynnal, ac ynghylch gofal i ddisgyblion sy'n sâl neu sydd wedi'u hanafu (*Rheoliad 5*).
- Mae hefyd gan awdurdodau lleol ddyletswyddau dan **Ddeddf Cydraddoldeb, 2010** - gweler isod.

## Deddf Cydraddoldeb, 2010

Mae anabledd yn nodwedd a ddiogelir dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>11</sup>**. Gallai nifer o ddysgwyr gydag anghenion gofal iechyd fod yn anabl at ddibenion y Ddeddf honno; mae'n bosibl nad fydd dysgwyr eraill. Mae dyletswyddau amrywiol dan **Ddeddf Cydraddoldeb, 2010** sy'n berthnasol yng nghyd-destun dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd sy'n anabl.

<sup>8</sup> **Social Services and Well-Being (Wales) Act, 2014** - <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted>

<sup>9</sup> **Children Act, 2004** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents>

<sup>10</sup> **Education (School Premises) Regulations, 1999, S.I. 1999/2** - <http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/2/contents/made>

<sup>11</sup> **Equality Act, 2010** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

Rhaid i gorff cyfrifol am ysgol beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl, aflonyddu arnyn nhw na'u trin yn annheg. Mewn rhai achosion, mae pobl benodol eraill hefyd yn berthnasol o ran hynny. Ar y corff cyfrifol hefyd y mae dyletswydd i wneud newidiadau rhesymol (**Adran 85 o Ddeddf Cydraddoldeb, 2010**).

Rhaid i awdurdodau lleol baratoi strategaeth hygyrchedd a'i rhoi ar waith ar gyfer yr ysgolion yn eu gofal. Dyma strategaeth ar gyfer (dros gyfnod penodol):

- a) Galluogi disgyblion anabl i gymryd rhan mewn mwy o bethau sydd yng nghwricwlwm yr ysgol;
- b) Gwella amgylchedd corfforol ysgolion at ddiben o gynyddu faint y gall disgyblion anabl fanteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a gynigir gan yr ysgolion;
- c) Gwella'r ffordd y rhoddir gwybodaeth, sydd ar gael yn hawdd i ddisgyblion nad ydynt yn anabl, i ddisgyblion anabl (**paragraff 1, Atodlen 10, Deddf Cydraddoldeb, 2010**).

Rhaid i gorff cyfrifol yr ysgol baratoi cynllun hygyrchedd a'i weithredu. Mae gan gynllun o'r fath yr un cynnwys â strategaeth hygyrchedd heblaw am y ffaith ei fod yn berthnasol i'r ysgol benodol (**Paragraff 3, Atodlen 10, Deddf Cydraddoldeb, 2010**).

Yn achos ysgol a gynhelir a meithrinfa a gynhelir, yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu yw'r corff cyfrifol. Yn achos uned cyfeirio disgyblion, yr awdurdod lleol yw'r corff cyfrifol.

Mae awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu sefydliadau addysgol a gynhelir awdurdodau lleol (e.e. ysgolion a gynhelir) yn rhwym i'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol iddynt, wrth gyflawni eu swyddogaethau, ystyried materion penodol sy'n ymwneud â chydaddoldeb (**Adran 149**). Mae hefyd arnynt ddyletswyddau penodol at ddiben cyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus yn well (**Deddf Cydraddoldeb, 2010, Rheoliadau (Dyletswyddau Statudol) (Cymru), 2011 Offeryn Statudol 2011/1064**).

## **Darpariaethau perthnasol eraill**

Mae **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**<sup>12</sup> yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu mewn perthynas â thrafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol.

Mae **Deddf Diogelu Data 1998**<sup>13</sup> yn rheoleiddio gwaith prosesu data, gan gynnwys ei gadw a'i ddatgelu.

Mae **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971**<sup>14</sup> a rheoliadau eraill yn delio â chyfyngiadau (er enghraifft, rhai'n ymwneud a chyflenwi a chadw) ar gyffuriau a reolir. Mae'n bosibl y caiff dysgwyr presgripsiwn am gyffuriau a reolir.

## **Atodiad 3:2**

### **Deddfwriaeth berthnasol ddefnyddiol yng Nghymru a Lloegr**

Gellir cyfeirio at y ddeddfwriaeth isod i egluro'r prif ddarpariaethau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc gydag anghenion gofal iechyd.

<sup>12</sup> **Learner Travel (Wales) Measure, 2008** - <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/contents>

<sup>13</sup> **Data Protection Act, 1998** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents>

<sup>14</sup> **Misuse of Drugs Act, 1971** - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/38/contents>

- ❖ **Deddf Plant a Theuluoedd, 2014 (Adran 100)**<sup>15</sup> – mae'r ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, perchnogion academiâu a phwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion i wneud trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion yn eu hysgolion gyda chyflyrau meddygol.
- ❖ **Adran 21 o Ddeddf Addysg 2002**<sup>16</sup> - mae hon yn nodi bod yn rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â rheoli'r ysgol, hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol.
- ❖ **Adran 175 o Ddeddf Addysg, 2002** – mae hon yn nodi bod yn rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wneud trefniadau i sicrhau y cyflawnir eu swyddogaethau mewn perthynas â rheoli'r ysgol gyda'r bwriad o ddiogelu a hybu lles disgyblion yr ysgol. Nododd paragraff 7, Atodlen 1 o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Lloegr) 2010 hyn mewn perthynas ag ysgolion academi ac academiâu darpariaeth amgen.
- ❖ **Adran 3 o Ddeddf Plant 1989**<sup>17</sup> - mae hon yn gosod dyletswydd ar berson sy'n gofalu am blentyn (nad oes arno gyfrifoldeb rhaint dros y plentyn) i wneud popeth sy'n rhesymol yn yr holl amgylchiadau at ddibenion diogelu neu hybu lles y plentyn.
- ❖ **Adran 17 o Ddeddf Plant, 1989** – mae hon yn ei gwneud yn ddyletswydd gyffredinol i awdurdodau lleol ddiogelu a hybu lles plant mewn angen yn eu hardal.
- ❖ **Adran 10 o Ddeddf Plant 2004**<sup>18</sup> - mae hon yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i hybu cydweithrediad rhwng yr awdurdod a phartneriaid perthnasol (gan gynnwys corff llywodraethu ysgol a gynhelir, perchenogion academi, grwpiau comisiynu clinigol a Bwrdd Comisiynu'r GIG, gyda'r bwriad o wella lles plant, gan gynnwys eu hiechyd corfforol a meddwl, a'u hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod; a'u addysg. Mae dyletswydd gan bartneriaid perthnasol i gydweithredu wrth wneud y trefniadau hyn.
- ❖ **Deddf Cydraddoldeb 2010**<sup>19</sup> - mae'r prif elfennau fel a ganlyn:
  - Rhaid iddynt **beidio** â gwahaniaethau yn erbyn plant a phobl ifanc anabl, nac aflonyddu arnyn nhw na'u trin yn annheg
  - **Rhaid** iddynt wneud newidiadau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc anabl dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae'r ddyletswydd hon yn rhagflaenol; mae'n rhaid cynllunio addasiadau a'u gweithredu ymlaen llaw er mwyn osgoi'r anfantais
- ❖ **Deddf Addysg, 1996, Pennod 1 (Anghenion Addysgol Arbennig)** <sup>20</sup>
- ❖ **Deddf Safon Gofal, 2000**<sup>21</sup>
- ❖ **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 1974, adran 2**<sup>22</sup> - gyda'r rheoliadau cysylltiedig mae hon yn nodi mai dyletswydd y cyflogwr (awdurdod lleol, corff llywodraethu neu ymddiriedolaeth academi) yw cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw iechyd a diogelwch staff a disgyblion yn cael eu peryglu.
- ❖ **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971**<sup>23</sup> - gyda rheoliadau cysylltiedig nodir yma y rheolir cyflenwi, gweinyddu, cadw a storio cyffuriau penodol. Gallai fod gan blant mewn ysgolion bresgripsiwn am gyffur a reolir .

<sup>15</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/6/contents/enacted>

<sup>16</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents>

<sup>17</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents>

<sup>18</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents>

<sup>19</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

<sup>20</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/part/IV>

<sup>21</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/contents>

<sup>22</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/section/2>

<sup>23</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/38/contents>

- ❖ **Deddf Meddyginiaethau 1968<sup>24</sup>** -Nodir yma'r ffordd y rhoddir presgripsiynau am rai cyffuriau, y ffordd y'u cyflenwir ac ffordd y'u gweinyddir yn y DU. Mae hefyd yn gosod cyfyngiadau ar ddelio â chynhyrchion meddyginiaethol, gan gynnwys eu gweinyddu.

## **Deddfwriaeth berthnasol arall**

- ❖ **Pob Plentyn yn Bwysig, 2003<sup>25</sup>**
- ❖ **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 1989<sup>26</sup>**
- ❖ **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 1999<sup>27</sup>**
- ❖ **Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, 2002<sup>28</sup>**
- ❖ **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân), 2005<sup>29</sup>**
- ❖ **Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl, 1970<sup>30</sup>**

---

<sup>24</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/67>

<sup>25</sup> <https://www.education.gov.uk/consultations/downloadableDocs/EveryChildMatters.pdf>

<sup>26</sup> [http://www.unicef.org.uk/Documents/Publication-pdfs/UNCRC\\_PRESS200910web.pdf](http://www.unicef.org.uk/Documents/Publication-pdfs/UNCRC_PRESS200910web.pdf)

<sup>27</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/regulation/1/made>

<sup>28</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2002/2677/contents/made>

<sup>29</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/1541/contents/made>

<sup>30</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1970/44/contents/enacted>